

Cymraeg mewn
Ymarfer Proffesiynol 2
2025-26




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 12 ac 13 : Sgiliau llafar a
gwrando

Allwedd:




Drilio




Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)




Tasg
wrando




Gwaith
pâr



Grŵp o
dri



Gwaith
grŵp




Amser
canu



Gwaith ar
y byrddau




Tasg
ysgrifennu



Tasg
ddarllen




Help llaw



Tystiolaeth
i'r Portffolio

Beth ydy Cywair Iaith?



- ▶ Gyda phwy mae e/ hi yn siarad?

Gwrandewch yn ofalus. Yn gyntaf, bydd angen i chi labeli'r llun sydd yn eich llyfrau.

Beth ydy Cywair Iaith?



- ▶ Gyda phwy mae e/ hi yn siarad?

Faint o'r gloch ddwedoch chi mae'r
cyfarfod staff ar ôl ysgol heddiw Mr
Thomas?

Beth ydy Cywair Iaith?



- ▶ Gyda phwy mae e/ hi yn siarad?

Haia, wyt ti'n mynd i'r clwb
Science amser cinio?


Beth ydy Cywair Iaith?



- ▶ Gyda phwy mae e/ hi yn siarad?

Cynhelir cyfarfod brys i bawb yn y neuadd heddiw yn syth am hanner awr wedi tri.


Iaith Gywir?



Trafodwch:

- Oes y fath beth ag 'iaith gywir'?
- Pa fath o iaith y byddwch chi'n ei defnyddio yn yr ysgol?

Felly, beth ydy cywair iaith?



Addasu'r math o iaith ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd. Felly wrth ddewis y cywair priodol, mae rhaid ystyried y canlynol:

- Pwy ydy eich cynulleidfa?
- Beth ydy'r sefyllfa?
- Beth ydy'r ffurf (wrth ysgrifennu)?

Pwysigrwydd dysgu cywair iaith

Mae yna ddarn o'r Cwricwlwm Newydd sydd eisiau sicrhau bod plant yn deall y gwahanol genres ieithyddol, hynny yw, eu bod nhw'n gallu gweld yr amrywiaeth anferthol sydd yna mewn iaith. Does neb yn dysgu dim ond un iaith ac un model. Mae gan bob iaith gwahanol fodelau yn dibynnu gyda phwy ydyn ni'n siarad, pam 'dyn ni'n siarad, i ba bwrpas ayyb. Mae'n allweddol bod plant yn cael y cyfle i archwilio eu hunain er mwyn iddyn nhw fedru gweld bod beth sy'n cael ei ddefnyddio ar lafar mewn un cyd-destun efallai ddim yn gweddu i fod yn y cyd-destun ysgrifenedig.

Podlediad Am Blant, 'Sut mae plant yn caffael iaith?': Owain Gethin Davies, Alaw Humphreys, yr Athro Enlli Thomas, Esyllt Hywel Evans a Dr Nia Young.

Cywair Iaith

Rhaid addasu iaith

1

Iaith Safonol

- gyda dosbarth cyfan i fod yn batrwm o iaith.

2

Iaith fwy naturiol gyda grŵp

- i sefydlu perthynas wahanol.

3


Gydag unigolyn

- iaith sy'n gydnaws â safon yr unigolyn ar lefel un i un.

Mathau o iaith

- Safonol/Ffurfiol e.e. ‘Rydw i’ yn lle ‘Dw i’
- Clasurol ‘Yr Iesu a ddywedodd’
- Llafar/Sgyrsiol – iaith bob dydd
- Bratiaith – iaith lafar â llawer o Saesneg
- Tafodiaith – iaith sy’n arbennig i rannau o Gymru e.e. losin, taffis, da-da, fferins

Beth ydyn nhw?



A'r gwaith a
orffennwyd
yn dra
chyflym.

Ma' nhw di
ffinisho'r gwaith
yn rili gyflym.

Ma' nhw 'di
gorffen y
gwaith yn
gyflym iawn.

Jiw! Ma' nhw
'di benni'r
gwaith yn gloi
iawn.

Gorffennwyd y
gwaityh yn
gyflym iawn.

A'r gwaith a
orffennwyd
yn dra
chyflym.
Clasurol

Ma' nhw di
ffinisho'r gwaith
yn rili gyflym.
Bratiaith

Ma' nhw 'di
gorffen y
gwaith yn
gyflym iawn.
Llafar.

Jiw! Ma' nhw
'di benni'r
gwaith yn gloi
iawn.
Tafodiaith


Gorffennwyd y
gwaith yn
gyflym iawn.
Safonol



Pa gywair iaith sy'n addas ar gyfer dosbarth?

- Iaith safonol
- Modelu iaith ar gyfer y dosbarth cyfan.
- Chi ydy patrwm iaith y disgyblion!
- Iaith naturiol wrth siarad â grŵp.
- Iaith yn ôl lefel eu gallu wrth siarad â disgyblion unigol.
- Athro da/Athrawes dda = Dealladwy!

Nodweddion penodol



Chwiliwch am rai o'r nodweddion canlynol yn y darnau ysgrifenedig:

Geirfa
bynciol /
swyddogol

Pwyntiau
bwled

Geirfa
benodol i
agor a chloi

Berfau cryno /
Berfau
amhersonol

Tystiolaeth/
Rhesymu

Geirfa /
ymadroddion
perswadio a mynegi
barn

Geirfa lafar

Cywair ...?

Annwyl Bennaeth

Hoffwn wneud cais i gael byrddau gwyn rhyngweithiol i'r adran
Fathemateg.....

Does dim dwywaith nad yw'r adnodd hwn yn fodd i amrywio'r dulliau addysgu
gan alluogi cyfleoedd ar gyfer ymchwiliadau a gemau mathemategol.....

Byddem fel adran yn ddiolchgar pe baech yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cais fel
bod ein disgyblion yn datblygu'n fathemategwyr brwd a chymwys.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Cywair ffurfiol, safonol

Agoriad a chlo
priodol

Defnyddio
berfau
cryno

Elfen
berswadiol

Annwyl Bennaeth

Hoffwn wneud cais i gael byrddau gwyn rhyngweithiol
i'r adran Fathemateg.....

Does dim dwywaith nad yw'r adnodd hwn yn fodd i
amrywio'r dulliau addysgu gan alluogi cyfleoedd ar
gyfer ymchwiliadau a gemau mathemategol.....

Byddem fel adran yn ddiolchgar pe baech yn rhoi
ystyriaeth lawn i'r cais fel bod ein disgyblion yn
datblygu'n fathemategwyr brwd a chymwys.
Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.
Yn gywir

Geirfa ac
ymadroddion
mynegi barn

Rhesymu a
chyfleu barn

Defnyddio
geirfa
addysgol,
bynciol

Llythyr
ffurfiol

Cywair ...?

- >Gwaith manwl wedi'i gynllunio'n ofalus.
- >Defnydd cywir o dermau gwyddonol.
- >Dealltwriaeth dda o'r cysyniad gwyddonol.
- >Canlyniadau'r arbrawf wedi'u dadansoddi'n gywir a'u prosesu gan ddefnyddio TGCh.

Targed:

- >Angen llunio casgliad sy'n crynhoi dy ganfyddiadau arbrofol.

Cywair iaith, safonol

Pwyntiau
bwled
cryno

Sylwadau
pynciol

Sylwadau
adeiladol

>Gwaith manwl wedi'i gynllunio'n ofalus.

>Defnydd cywir o dermau gwyddonol.

>Dealltwriaeth dda o'r cysyniad gwyddonol.

>Canlyniadau'r arbrawf wedi'u dadansoddi'n gywir a'u prosesu gan ddefnyddio TGCh.

Targed:

>Angen llunio casgliad sy'n crynhoi dy ganfyddiadau arbrolfol.

Targed ar
gyfer
gwelliant

Adborth

Cywair
iaith ar
gyfer CA..?

Cywair Iaith ...?

Coda'r sbwriel 'na os gweli'n dda a phaid â gadal imi dy weld yn taflu sbwriel eto. 'Nest di ddim gwrando ar y Pennaeth yn y gwasanaeth bora 'ma yn rhybuddio pawb? Dylet ti fod yn gwbod felly be' di'r gosb. Dyma dy rybudd ola'. Ti'n dallt?

Cywair iaith: iaith lafar naturiol

ffurfiau
gorchmynnol

'na

'nest

gwbod

dallt

Coda'r sbwriel 'na os gweli'n dda a phaid â gadal imi dy weld yn taflu sbwriel eto. 'Nest di ddim gwrando ar y Pennaeth yn y gwasanaeth bora 'ma yn rhybuddio pawb? Dylet ti fod yn gwbod felly be' di'r gosb. Dyma dy rybudd ola'. Ti'n dallt?

tafodiaith

gadal

bora

be'

ola'

Rhagenwau

“Fi wedi anghofio bag fi Miss”

Dyma’r math o iaith anffurfiol a glywch chi yn aml iawn yn yr ystafell ddosbarth. Ond, mae’n bwysig eich bod chi’n modelu’r patrwm yn gywir sef gosod y rhagenw cyn yr enw e.e. fy mag i. Sylwch bydd yr enw yn **treiglo’n drwynol** ar ôl y rhagenw.

p	t	c	b	d	g
↓	↓	↓	↓	↓	↓
mh	nh	ngh	m	n	ng

Rhagenwau



Anffurfiol	Cywir
Pensil fi	Fy <u>mh</u> ensil i
Tei fi	Fy <u>nh</u> ei i
Cadair fi	Fy <u>ngh</u> adair i
Brawd fi	Fy <u>m</u> rawd i
Dant fi	Fy <u>n</u> ant i
Gwaith fi	Fy <u>ng</u> waith i
Mam fi	Fy mam i
Llaw fi	Fy <u>llaw</u> i

Geiriau i'w hosgoi

So

actually

Really

Basically

Just

Yn hytrach, beth am ddefnyddio...?

Felly

Wir?

Mewn
gwirionedd

Yn syml

Dim ond



Bod



Mae sut rydych chi'n cyflwyno eich hun yn hynod o bwysig:

Ffurf bresennol	Llafar iawn	Anffurfiol	Iaith gyfoes	Ffurfiol
Cadarnhaol	Fi yn	Dw i'n	Rydw i	Rwyf
Negyddol	Fi ddim/ Smo fi/Sa i/Nagw i	Dw i ddim	Dydw i ddim	Nid wyf

Roeddwn i...



Ffurf (Amherffaith)	Llafar iawn	Anffurfiol	Iaith gyfoes	Ffurfiol
Cadarnhaol	O'n i'n (mynd)	Ro'n i'n	Roeddwn i'n	Yr oeddwn yn
Negyddol	Nagon i'n (mynd)	Do'n i ddim yn	Doeddwn i ddim yn	Nid oeddwn yn

Defnyddio ‘bod’ a mynegi barn



Yn Saesneg, mae'r gair “*that*” yn aml yn cael ei hepgor o frawddegau, e.e.

I think ~~that~~ it's interesting.

Ond, yn y Gymraeg, dydyn ni ddim yn gallu hepgor “*that*”. Fel arfer, mae'n cael ei gyfieithu fel y gair **bod**, e.e.

Rydw i'n meddwl. + Mae'r wers yn ddiddorol.

Rydw i'n meddwl **bod** y wers yn ddiddorol.

Rydyn ni hefyd yn gallu defnyddio **bod** gyda rhagenw, e.e.

Rydw i'n meddwl **ei bod hi'n** ddiddorol.

Rydyn ni'n defnyddio **bod** gyda'r amser presennol, e.e.

Mae hi'n bwrw glaw. > Dw i'n meddwl **ei bod hi'n** bwrw glaw.

Rydyn ni, hefyd, yn defnyddio **bod** gyda'r amser amherffaith, e.e.

Roedd e'n dda. > Roeddwn i'n meddwl **ei fod e'n** dda.

Defnyddio 'bod' a mynegi barn



Rydw i'n meddwl. + Mae'r bwyd yn flasus.

Rydw i'n meddwl + bod + ~~Mae'r~~ bwyd yn flasus.


Rydw i'n meddwl bod y bwyd yn flasus.

Rydw i'n gwybod. + Mae'r llyfr yn dda.

Rydw i'n gwybod + bod + ~~Mae'r~~ llyfr yn dda.

Rydw i'n gwybod bod y llyfr yn dda.

Mynegi barn + bod + amser presennol




Rydw i'n	meddwl	bod y ffilm yn	<u>g</u> yffrous.
			<u>dd</u> iflas.
Dydw i ddim yn	meddwl	bod y ffilm yn	<u>dd</u> a.
			<u>dd</u> iddorol.
Wyt ti'n	meddwl	bod y ffilm yn	<u>w</u> ych?
			<u>d</u> eimladwy?

Mae 'ffilm' yn enw benywaidd felly gallwn ddefnyddio'r rhagenw yn lle'r enw.



Rydw i'n	meddwl	ei bod hi'n	<u>g</u> yffrous.
			<u>dd</u> iflas.
Dydw i ddim yn	meddwl	ei bod hi'n	<u>dd</u> a.
			<u>dd</u> iddorol.
Wyt ti'n	meddwl	bi bod hi'n	<u>w</u> ych?
			<u>d</u> eimladwy?

Gofyn cwestiynau



Cwestiwn	Ateb
Beth wyt ti'n feddwl o'r ysgol?	Rydw i'n meddwl bod yr ysgol yn g roesawgar.
	Rydw i'n meddwl ei bod hi'n w ych.
Beth wyt ti'n feddwl o'r actor?	Rydw i'n meddwl bod yr actor yn d eimladwy.
	Rydw i'n meddwl ei f od e'n dd a iawn.
Beth wyt ti'n feddwl o'r caneuon?	Rydw i'n meddwl bod y caneuon yn f ywiog.
	Rydw i'n meddwl eu bod nhw'n swynol.
Beth ydych chi'n feddwl o'r portreadau?	Rydw i'n meddwl eu bod nhw'n unigryw.
Beth ydych chi'n feddwl o'r cynlluniau?	Rydw i'n meddwl eu bod nhw'n g yffrous.

Cofiwch...

Ti



Unigolyn

Chi



Lluosog



Dangos
parch



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Beth wyt ti'n feddwl ...?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Beth wyt ti'n feddwl ...?



Dewisa rif ac yna mynega dy farn ...

1. Tîm Rygbi Cymru	2. tywydd heddiw	3. Cwricwlwm i Gymru	4. gwisg ysgol
5. rhaglenni teledu Cymraeg	6. gwaith cartref	7. ffilmiau	8. adroddiadau
9. coginio	10. ymarfer corff	11. pethau ail law	12. ceir trydan

Defnyddio 'bod' + rhagenwau



Mae **bod** yn newid gyda'r rhagenwau:

fy mod i
dy fod ti
ei fod e
ei bod hi
ein bod ni
eich bod chi
eu bod nhw

Defnyddio 'bod' + rhagenw



Rydw i'n meddwl. + Mae Rhodri yn siaradus.

Rydw i'n meddwl + bod + ~~Mae~~ Rhodri yn siaradus.

Rydw i'n meddwl bod Rhodri yn siaradus.


Rydw i'n meddwl ei fod e'n dal.

Rydw i'n credu. + Maen nhw'n dda.

Rydw i'n credu + bod + ~~Maen~~ nhw'n dda.

Rydw i'n credu eu bod nhw'n dda.

Mynegi barn + bod + amser presennol




Rydw i'n	meddwl	bod y llyfr yn	<u>w</u> ych.
			<u>dd</u> iflas.
Dydw i ddim yn	meddwl	bod y llyfr yn	<u>dd</u> a iawn.
			<u>dd</u> iddorol.
Wyt ti'n	meddwl	bod y llyfr yn	<u>g</u> yffrous?
			<u>d</u> eimladwy?

Mae 'llyfr' yn enw gwrywaidd felly gallwn ddefnyddio'r rhagenw yn lle'r enw.



Rydw i'n	meddwl	ei <u>f</u> od e'n	<u>w</u> ych.
			<u>dd</u> iflas.
Dydw i ddim yn	credu	ei <u>f</u> od e'n	<u>dd</u> a iawn.
			<u>dd</u> iddorol.
Wyt ti'n	meddwl	ei <u>f</u> od e'n	<u>g</u> yffrous?
			<u>d</u> eimladwy?

Mynegi barn + bod + amser presennol



Rydw i'n	meddwl	bod y gwersi'n	<u>w</u> ych.
			hwyl.
Dydw i ddim yn	meddwl	bod y gwersi'n	<u>dd</u> a iawn.
			<u>dd</u> iddorol.
Wyt ti'n	meddwl	bod y gwersi'n	anodd?
			hawdd?

Mae 'gwersi' yn enw lluosog felly gallwn ddefnyddio'r rhagenw yn lle'r enw.



Rydw i'n	meddwl	eu bod nhw'n	<u>w</u> ych.
			hwyl.
Dydw i ddim yn	meddwl	eu bod nhw'n	<u>dd</u> a iawn.
			<u>dd</u> iddorol.
Wyt ti'n	meddwl	eu bod nhw'n	anodd?
			hawdd?

bod + rhagenwau



Rhowch y ffurfiau cywir yn y brawddegau canlynol:

1. Rydw i'n meddwl (bod chi) yn siarad gormod.
2. Rydw i'n teimlo (bod nhw) yn gwneud eu gorau glas.
3. Dydw i ddim yn meddwl (bod ti) wedi deall y dasg.
4. Wyt ti'n meddwl (bod e) yn dda?
5. Dydy e ddim yn credu (bod chi) yn canu'n dda.
6. Maen nhw'n gobeithio (bod hi) yn mynd i ddod heno.


bod + rhagenwau



ATEBION:


1. Rydw i'n meddwl **eich bod chi'n** siarad gormod.
2. Rydw i'n teimlo **eu bod nhw'n** gwneud eu gorau glas.
3. Dydw i ddim yn meddwl **dy fod ti** wedi deall y dasg.
4. Wyt ti'n meddwl **ei fod e'n** dda?
5. Dydy e ddim yn credu **eich bod chi'n** canu'n dda.
6. Maen nhw'n gobeithio **ei bod hi'n** mynd i ddod heno.

Mynegi barn + bod + amser amherffaith



Roeddwn i'n	meddwl	fy <u>m</u> od i'n iawn.
	credu	dy f od ti'n iawn.
	gwybod	ei f od e'n iawn.
	gobeithio	ei bod hi'n iawn.
	dweud	ein bod ni'n iawn.
	sicr	eich bod chi'n iawn.
	siwr	eu bod nhw'n iawn.
Doeddwn i ddim yn	credu	fy <u>m</u> od i'n iawn.
	meddwl	ei bod hi'n dd a iawn.
Oeddet ti'n	gwybod	eu bod nhw'n canu'n dda?
	gobeithio	eich bod chi'n mynd i ennill?

Beth oeddet ti'n feddwl ...?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



www.athrofa.cymru

Sbardun/ Tasgau Gwranddo posib ...?





Sbardun	Gweithgareddau
geirfa newydd	bingo

Sbardun/ Tasgau Llafar posib ...?



Sbardun	Gweithgareddau
Ilun	gêm y gadair goch






Gwefan Hwb: Cwricwlwm i Gymru

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/>

Tasg i'r Portffolio:

Tasg Wrando / Tasg Lafar
(o'r Pecyn Cymorth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

- Gwefan : [Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon | Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Ymadroddion mynegi barn defnyddiol wrth drafod



Iaith ac Ymadroddion ar gyfer Mynegi Barn

A dweud y gwir	Anghytunaf	Beth bynnag
Byddai'n braf petai...	Byddai'n dda petai...	Credaf
Cytunaf	Dadl arall	Does dim amheuaeth fod...
Does dim dwywaith nad...	Does dim rhyfedd mai...	Dylid cofio mai...
Er hyn...	Felly...	Fodd bynnag
Gwaetha'r modd...	Gŵyr pawb...	Heb os nac oni bai
Heb unrhyw amheuaeth	Hoffwn	I gloi...
O ganlyniad, teimlaf...	Onid yw...	Mae lle i gredu...
Mae'n amlwg y bydd angen...	Mae'n amlwg fod angen...	Mae'n anhygoel fod...
Mae'n anodd credu...	Mae'n bwysig iawn nodi...	Mae'n hen bryd
Mae'n rhaid cydnabod...	Meddyliaf	Pwy all beidio â...
Pwysig yw nodi...	Pwynt arall	Rwy'n argyhoeddedig...
Rwyf o'r farn...	Rwy'n rhyfeddu	Rydw i'n meddwl
Rhaid cofio	Teimlaf	Wedi'r cyfan...
Wrth reswm...	Y gwir cas yw...	Y gwirionedd yw mai...
Yn ail	Yn anffodus...	Yn bendant
Yn bersonol...	Yn ddi-os, fe fydd...	Yn drydydd
Yn fy marn i...	Yn gyntaf	Yn ôl rhai
Yn ôl pob tebyg	Yn sicr	Yn wir

'Gair yn Gymorth'




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales


www.athrofa.cymru

Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?




Gwaith
pâr



Grŵp o
dri



Help Llaw



Drilio



Tasg
ysgrifennu